Animal & Plant Health Agency
Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwyliadwriaeth Manylach ar gyfer y Clafr yng Nghymru

Mae archwiliad o samplau crafu'r croen gan ddefaid ar ffermydd Cymru sy'n dangos arwyddion clinigol posibl o'r clafr yn cael eu cynnig am ddim drwy gydol y flwyddyn erbyn hyn.

Bydd y cynllun, gyda chymorth Llywodraeth Cymru, yn annog diagnosis o'r clafr, sy'n rhagofyniad ar gyfer rhoi triniaeth briodol ar gyfer y clefyd hwn a'i reolin llwyddiannus. Mae hon yn un o flaenoriaethau hirsefydlog Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru.

Derbynnir samplau crafu'r croen yn y ffordd arferol, gan filfeddyg a dylid eu hanfon yn uniongyrchol i Ganolfan Ymchwiliadau Milfeddygol APHA Caerfyrddin, lle cynhelir y profion.

Gellir cyflwyno'r samplau naill ai

- gyda ffurflen gyflwyno Anifail Cnoi Cil Bach
- neu drwy borth ar-lein ADTS https://www.gov.uk/animal-disease-testing (mae postio am ddim ar gael gydag ADTS)

**Rhaid cyflwyno samplau gyda ffurflen gyflwyno wedi'i chwblhau'n llawn / cyflwyniad ADTS i fod yn gymwys i gael profion am ddim. Cofiwch gynnwys hanes clinigol llawn ac unrhyw hanes triniaeth berthnasol, gan nodi 'Prawf Clafr Cymru' ar y ffurflen.**

Cofiwch gyflwyno'r samplau i:

Canolfan Ymchwiliadau Milfeddygol APHA Caerfyrddin,
Heol Ffynnon Job,
Tre Ioan,
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 3EZ

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Chanolfan Ymchwiliadau Milfeddygol APHA Caerfyrddin ar 0300 060 0016 neu Carmarthen@apha.gov.uk

Centre of Expertise for Extensively Managed Livestock

Canolfan Arbenigedd ar gyfer Da Byw a Reolir yn Eang